Trosolwg

Mae a wnelo'r safon hon â chynnal cyfarpar y gweithgaredd yn rheolaidd. Mae'n ymdrin â gwirio'r cyfarpar ac yna gwneud gwaith cynnal, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Efallai y bydd angen cynnal archwiliadau ar gyfarpar a weithredir â llaw a chyfarpar pŵer.

* *

Prif ddeilliannau'r safon hon ydyw:

1. archwilio'r cyfarpar a nodi pa waith cynnal sydd ei angen
2. cynnal y cyfarpar

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gallu gwneud gwaith cynnal ar gyfarpar gweithgareddau gydag ychydig o oruchwyliaeth yn unig. Rhaid i Arweinwyr Gweithgareddau fod yn ymwybodol o'u cyfyngiadau eu hunain a rhoi gwybod am unrhyw gyfarpar a chyfleusterau sydd arnynt angen sylw arbenigol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Archwilio'r cyfarpar a nodi pa waith cynnal sydd ei angen

1. gwirio'r amserlen cynnal a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr er mwyn nodi pa gyfarpar sydd angen ei gynnal
2. ymdrin â materion yn ymwneud â gwaith cynnal, yn unol â gofynion cyfreithiol a pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
3. symud unrhyw gyfarpar anniogel neu ei roi o'r neilltu rhag iddo gael ei ddefnyddio
4. cyfeirio a rhoi gwybod am unrhyw faterion cynnal nad ydych yn gallu ymdrin â nhw i'r unigolyn â chyfrifoldeb yn eich sefydliad

* *

Cynnal y cyfarpar

5. gwirio bod y cyfarpar mewn cyflwr diogel ar gyfer gwaith cynnal a bod eich ardal waith wedi ei pharatoi
6. cwblhau'r gwaith cynnal sydd ei angen, gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
7. nodi a neu rhoi gwybod am unrhyw broblemau yn ystod gwaith cynnal wrth yr unigolyn â chyfrifoldeb yn eich sefydliad
8. cynnal yr archwiliadau diogelwch terfynol ar y cyfarpar
9. cofnodi'r gwaith cynnal rydych wedi ei gwblhau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Archwilio'r cyfarpar a nodi pa waith cynnal sydd ei angen**

1. sut i archwilo'r cyfarpar yn erbyn amserlen gwaith cynnal eich sefydliad a chanllawiau'r gwneuthurwr
2. y mathau o waith cynnal rydych wedi eich awdurdodi i'w gwneud yn ddiogel
3. sut i symud unrhyw gyfarpar anniogel a/neu ei roi o'r neilltu rhag iddo gael ei ddefnyddio a goblygiadau peidio â gwneud hynny
4. sut i roi gwybod am waith cynnal sydd angen ei gwblhau gan arbenigwr technegol wrth yr unigolyn â chyfrifoldeb yn eich sefydliad

* *

Cynnal y cyfarpar

5. sut i sicrhau bod y cyfarpar yn eich ardal waith mewn cyflwr diogel ar gyfer gwaith cynnal
6. yr offer a'r deunyddiadu cywir sydd eu hangen ar gyfer cynnal y cyfarpar, sut i'w defnyddio a phwysigrwydd defnyddio'r rhai cywir
7. sut i wneud gwaith cynnal ar y cyfarpar gan amharu cyn lleied â phosibl ar weithgareddau arferol
8. sut i nodi a rhoi gwybod am unrhyw broblemau i'r unigolyn â chyfrifoldeb yn eich sefydliad
9. sut i gynnal archwiliadau terfynol, cyn i'r cyfarpar gael ei ddefnyddio unwaith eto a goblygiadau peidio â gwneud hynny
10. sut i gwblhau cofnodion gwaith cynnal y cyfarpar, yn unol â gofynion cyfreithiol a pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad

Gwerthoedd

Mae'r **gwerthoedd** allweddol canlynol yn sail i ddarpariaeth y gwasanaethau o fewn arweinyddiaeth gweithgaredd a bydd yn helpu arweinwyr gweithgaredd i ddylanwadu'n fwriadol ar y rhai sy'n cymryd rhan.**

Dylai Arweinwyr Gweithgareddau wneud y canlynol:

1. meithrin a datblygu amgylchedd sy'n annog pobl i gymryd rhan, yn rheoli risgiau ac yn ysgogi her, mwynhad, hyder a hunan-barch ac yn fwy na dim cyflawniad
2. cefnogi bod angen i'r rhai sy'n cymryd rhan fod yng nghanol y gweithgaredd, trwy gydol eu dyletswyddau fel arweinydd
3. bod yn onest trwy gydol eu gwaith
4. annog ymddygiad cadarnhaol mewn modd teg, cyson, moesegol ac effeithiol
5. croesawu amrywiaeth a chynnwys pawb er mwyn cynnwys pob un sydd ag anghenion penodol a neu allu amrywiol

Ymddygiadau

Mae'r **ymddygiadau** allweddol canlynol yn sail i ddarpariaeth y gwasanaethau o fewn arweinyddiaeth gweithgaredd. Mae'r ymddygiadau hyn yn sicrhau bod y rhai sy'n cymryd rhan yn cael argraff dda o'r sefydliad a'r unigolyn

Dylai Arweinwyr Gweithgareddau wneud y canlynol:

1. arsylwi, parchu a bod yn oddefgar tuag at bawb sy'n cymryd rhan, a phawb sydd ynghlwm, er enghraifft, rhieni, staff ac arweinwyr eraill
2. ymddwyn fel model rôl trwy gynnal y safonau uchaf o ymddygiad personol
3. gweithredu a dangos esiampl trwy ddilyn rheolau sefydlog ar gyfer ymddygiad yn ystod y sesiwn a neu raglen
4. dangos empathi tuag at anghenion a gofynion y rhai sy'n cymryd rhan

5. cadw o fewn y ffiniau ar gyfer cynnal a datblygu perthynas gyda'r rhai sy'n cymryd rhan
6. parchu swyddogaethau'r staff cefnogi, er enghraifft, gweithwyr gofal, cynorthwywyr cymorth cyntaf, achubwyr bywydau neu gyfeillion a gwybod pryd mae angen cyfeirio unrhyw faterion at yr arbenigwyr hyn

Sgiliau

Mae'r **sgiliau** ** **canlynol yn sail i ddarparu y gwasanaethau o fewn arweinyddiaeth gweithgaredd a bydd yn helpu arweinwyr gweithgaredd i ddylanwadu'n fwriadol ar y rhai sy'n cymryd rhan.**

Dylai Arweinwyr Gweithgareddau wneud y canlynol:

1. dylanwadu ar y rhai sy'n cymryd rhan i gymryd gofal o a gwerthfawrogi beth ydy gwerth yr offer gaiff ei ddefnyddio
2. bod â dull cyfundrefnol o baratoi, arwain, arolygu a gwerthuso gweithgareddau
3. deall pryd mae angen cynnal cyfrinachedd a phan does dim modd ei sicrhau
4. myfyrio ar eu harferion eu hunain a chwilio am ffyrdd o wella eu gallu bob tro
5. gallu meddwl y tu hwnt i'r syniad gwreiddiol a llunio cynlluniau wrth gefn
6. rheoli disgwyliadau'r rhai sy'n cymryd rhan
7. bod yn hyderus a gwydn
8. addasu gweithgareddau er mwyn datblygu gweithgareddau sy'n llawn hwyl a chyda phwrpas i'r rhai sy'n cymryd rhan
9. gallu rheoli amser yn effeithiol ac effeithlon
10. adnabod unrhyw beth sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan a sut mae cael gwared ar y rhwystrau hyn
11. meithrin gwaith tîm a chydweithio ymysg cyfoedion

12. dangos diplomyddiaeth wrth herio unrhyw faterion yn ymwneud ag ymddygiad a gwahaniaethu
13. grymuso a chynnwys y rhai sy'n cymryd rhan yn y sesiwn drwy ddirprwyo tasgau
14. grymuso y rhai sy'n cymryd rhan i fod yn 'ymwybodol o risgiau' trwy eu cynnwys mewn asesiad risg ymarferol ac unrhyw waith penderfynu

Geirfa

Cyfarpar**

Cyfarpar cymhleth

Cyfarpar sy'n cynnwys sawl darn; er enghraifft, trampolîns, dingîs hwylio, rhwydwaith cyfrifiaduron

Cyfarpar wedi'i bweru

Darn o gyfarpar â ffynhonnell bŵer annibynnol, er enghraifft, rigiau pêl-fasged, peiriannau rhedeg, cychod diogelwch

Cyfarpar syml

Cyfarpar sy'n cynnwys un neu ddau ddarn, er enghraifft, rhwydi badminton

*
*
*
*

Gofynion iechyd a diogelwch

Y rheini sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, codau ymarfer diwydiant, Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol (lle caiff y gweithgaredd ei reoli gan Gorff Llywodraethu Cenedlaethol) a gofynion eich sefydliad eich hun

*
*
*
*

Cynnal

Er enghraifft, iro, addasu, glanhau a sychu

*
*
*
*

Cyfarpar â weithredir â llaw

Er enghraifft, beiciau ymarfer, canŵs, trampolîns

*
*
*
*

Deunyddiau

Er enghraifft, paent, farnais, bylbiau golau, tiwbiau fflworoleuol

*
*
*
*

Polisïau a gweithdrefnau sefydliadol

Yn ogystal â gofynion cyfreithiol statudol, y rhain yw'r gweithdrefnau gweithio a gytunwyd y mae'n rhaid eu dilyn, er enghraifft, mewn perthynas ag asesiadau risg, ymdrin ag eiddo personol, ymdrin â chwynion, cyfrinachedd, lefelau o gyfrifoldeb, diogelu, cod ymarfer ynghylch cymarebau goruchwyliaeth, a'r camau i'w cymryd os na fydd gweithgaredd wedi ei gynnwys yng nghylch gorchwyl Corff Llywodraethu Cenedlaethol

*
*
*
*

Unigolyn â chyfrifoldeb

Yr unigolyn dynodedig; fel, goruchwyliwr, swyddog dyletswydd, rheolwr llinell, hyfforddwr gweithredol ar ddyletswydd, arweinydd rhaglen. Mae sawl term i ddisgrifio rôl yr unigolyn â chyfrifoldeb a bydd yn amrywio yn ôl eich sefydliad penodol

*
*
*
*

Pobl ifanc

Yn gyffredinol, cyfranogwyr o dan 18 oed, fodd bynnag, dylech gyfeirio at bolisïau eich sefydliad

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	29 Ebr 2017
Dyddiad Adolygu Dangosol	29 Ebr 2022
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKAC16
Galwedigaethau perthnasol	Galwedigaethau Technegol a Phroffesiynol Cysylltiedig, Hamdden, Teithio a thwristiaeth, Chwaraeon a hamdden
Cyfres/Set	Arweinyddiaeth Gweithgaredd
Geiriau Allweddol	archwilio, cynnal, gweithgaredd, cyfarpar